**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 12 RHAGFYR 2017**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Dave Mackie, Hilary McGuill, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, Helen Brown, Bob Connah, David Cox, Veronica Gay, Andrew Holgate, Joe Johnson, Rita Johnson, Richard Lloyd, Mike Lowe, Billy Mullin, Ted Palmer ac Andy Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Y Prif Swyddog (Llywodraethu), Y Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid), Y Prif Swyddogion (Newid Sefydliadol), Y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, Uwch-reolwr – Plant a'r Gweithlu, Y Rheolwr Cyllid a'r Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Pwyllgor.

## 67. CYFLWYNIADAU

Gan gydnabod llwyddiant Timau Maethu ac Adnoddau Dynol Corfforaethol y Cyngor i ennill Gwobr Cyflogwr Ystyriol o Rieni Maeth y Flwyddyn yng Ngwobrau Rhagoriaeth Cenedlaethol y Rhwydwaith Maethu, croesawodd y Cadeirydd y ddau dîm i'r cyfarfod. Eglurodd mai'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Maethu oedd gwobrau gofal maeth blaenllaw'r DU, yn dathlu rhagoriaeth a chyflawniad rhagorol mewn maethu ac yn cydnabod y bobl hynny oedd yn gwneud cyfraniad eithriadol i ofal maeth. Yn eu pedwaredd flwyddyn bellach, mae'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Maethu yn gyfle gwych i dynnu sylw at rai o'r bobl ifanc, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol ac eraill sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned faethu.

Ym mis Tachwedd 2016, o ganlyniad i gydweithio, cyflwynwyd Polisi 'Croesawu Maethu Sir y Fflint', oedd yn amlinellu'r cymorth ychwanegol y byddai'r Cyngor yn ei ddarparu i weithwyr pe byddent yn maethu i'r Cyngor. Cyngor Sir y Fflint oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu'r agwedd hon, ac i gydnabod ei gefnogaeth i faethu, cyhoeddwyd y Cyngor yn enillydd cyffredinol.

Fel Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol, estynnodd y Cynghorydd Christine Jones longyfarchiadau i'r timau ar y wobr, oedd yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i ofal maeth. Adleisiodd eiriau'r Cadeirydd, gan ychwanegu y cynigiwyd y cymorth ychwanegol drwy roi'r opsiwn o weithio'n hyblyg a dyrannu gwyliau ychwanegol. Yn dilyn cyflwyniad y polisi hwn, roedd pedwar darpar ofalwr maeth arall wedi gwneud ymholiadau. Diolchodd i bawb oedd yn rhan o hyn am eu hymrwymiad parhaus mewn maes sydd wedi mynd o nerth i nerth.

## 68. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Hydref ac 14 Tachwedd.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Carver, nododd y Prif Weithredwr y byddai Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cael ei ddiwygio i gynnwys 'plant cyn-filwyr a milwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn y Lluoedd Arfog".

Dywedodd y Cynghorydd Phillips ei fod yn siomedig mai dim ond Aelodau Llafur oedd yn rhan o lun a dynnwyd yn dilyn cyfarfod y Cyngor Sir ar 14 Tachwedd. Roedd hyn wedi dilyn penderfyniad unfrydol ar y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Aaron Shotton ar 'Ddiwedd ar Galedi Ariannol Llywodraeth y DU". Eglurodd y Cynghorydd Shotton y tynnwyd y llun cyn y cyfarfod, a'i fod yn ymwneud â deiseb a oedd yn ymgyrch wleidyddol ac a oedd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth y DU. Roedd yn fater ar wahân i'r Rhybudd o Gynnig ac roedd yn anffodus bod y wasg wedi'i gynnwys ar y cyd â'r stori honno. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y bleidlais ar y Rhybudd o Gynnig penodol hwnnw yn unfrydol, a dangoswyd manylion y bleidlais a gofnodwyd yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 69. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Dave Hughes gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 13 ar y rhaglen, sef Argymhelliad Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, gan mai ef yw Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

## 70. COFFA A THRIBLAU I AELOD HWYR Y CYNULLIAD CARL SARGEANT

Bu i Arweinydd y Cyngor arwain teyrngedau i'r diweddar Aelod Cynulliad, Carl Sargeant, gan ddweud y bu'n rhan annatod o'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd Nododd ei fod yn ddiwrnod trist iawn i bawb pan gyhoeddwyd y newyddion am farwolaeth Mr Sargeant. Bu'n ymgyrchydd brwd a diflino dros yr ardal ac roedd yn falch o gael cynrychioli Alun a Glannau Dyfrdwy ers 2003. Cyfeiriodd at yr amser y bu iddynt gyfarfod am y tro cyntaf a chyfnod Mr Sargeant fel Llywodraethwr Ysgol ac fel Aelod o Gyngor Tref Cei Connah, lle daeth yn Gadeirydd yn fuan iawn; ei ddawns ddinesig ef oedd yr orau yn hanes y Cyngor. Bu'n fraint ganddo weithredu fel asiant Mr Sargeant yn ymgyrch etholiadol 2011, oedd yn brofiad pleserus, llawn hwyl, chwerthin ac atgofion. Tynnodd sylw'n benodol at ddau o'r prif feysydd oedd yn ganlyniad gwaith caled

Mr Sargeant, sef (1) yr angen am Ddiwrnod i'r Lluoedd Arfog, a (2) atal y cynllun hawl i brynu yn Sir y Fflint. Mae ei wraig, Bernadette, ei blant, Lucy a Jack a'i rieni, Malcolm a Sylvia yn ein meddyliau a'n gweddïau.

Siaradodd y Cynghorydd White am ei frawd yng nghyfraith, Carl Sargeant, a fu farw'n drychinebus 5 wythnos ynghynt. Siaradodd ar ran y teulu wrth ddiolch i'r Cyngor am eu negeseuon o gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig y Cynghorydd Attridge a'r Prif Weithredwr. Soniodd am bersonoliaeth fywiog Mr Sargeant a'r llu o amcanion a gyflawnodd yn ystod ei gyfnod fel Aelod Cynulliad. Talodd deyrnged i'w nai, Jack, sef mab Mr Sargeant, oedd wedi ymddwyn yn arbennig o aeddfed ers colli ei dad.

Bu i'r Cynghorwyr Peers, Sharps, Phillips ac Ellis hefyd dalu teyrnged i Carl Sargeant, gan sôn am ei gyflawniadau, ei boblogrwydd a'i garedigrwydd, y gefnogaeth a ddangosodd i'r bobl leol, y cyfeillion yr oedd wedi'u gwneud a'r tristwch a deimlwyd gan gymaint o bobl ar achlysur trist ei farwolaeth.

## 71. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddosbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod.

Bu i'r Cadeirydd sôn yn benodol am angladd Carl Sargeant, oedd yn deyrnged iddo.

Achubodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) am y gwaith a wnaed yn ystod y tywydd garw diweddar, gan ofyn iddo basio ei werthfawrogiad ymlaen i'r tîm. Fel Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, diolchodd y Cynghorydd Carolyn Thomas hefyd i staff yr adran Strydwedd a fu'n gweithio'n ddiflino ers cychwyn y tywydd garw. Sefydlwyd canolfan weithrediadau a fu ar agor drwy'r penwythnos i sicrhau bod ysgolion, llety gwarchod a chanol trefi yn cael cymorth i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel.

## 72. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorwyr Hutchinson a Peers ddeiseb yn gofyn am gael ailosod y twmpathau cyflymder ar Drury New Road cyn y gyffordd â Mornington Crescent.

## 73. CWESTIYNAU GAN Y CHYOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 74. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 75. RHYBUDD O GYNNIG

Daeth un Rhybudd o Gynnig i law:

Y Cynghorydd Richard Jones:

“(1) Bod y Cyngor hwn yn buddsoddi’n gyfartal ym mhob un o drefi Sir y Fflint mewn perthynas â Chefnogi Seilwaith unrhyw fuddsoddiad refeniw neu gyfalaf i:

(a) Adeiladu neu wella rhwydweithiau priffyrdd a chludiant (ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau beicio neu lwybrau troed), gan gynnwys parcio
(b) Ailddatblygu neu adfywio trefi, strydluniau neu fannau hamdden, gan gynnwys TCC
(c) Adeiladu neu ailddatblygu tai, gan gynnwys tai cymunedol megis gofal ychwanegol

(2) Yr adroddir ar y lefelau buddsoddi priodol, yn dangos cyllid allanol a mewnol, fel rhan o adroddiadau’r Strategaeth Refeniw a Chyfalaf i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol bob chwarter”.

Cwestiynodd y Cynghorydd Attridge y geiriau ychwanegol i’r Rhybudd o Gynnig a anfonwyd allan ym mhecyn y rhaglen, ac fe'i hysbyswyd gan y Prif Weithredwr bod y geiriau “i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol bob chwarter” wedi cael eu hychwanegu i (2) yn dilyn cyngor a roddwyd i’r Cynghorydd Jones ar sail y gwaith y byddai angen ei wneud pe bai’r Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.

Wrth siarad o blaid ei Rybudd o Gynnig, ychwanegodd y Cynghorydd Jones y bu digon i bawb yn y gorffennol, pan oedd mwy o gyllid ac adnoddau ar gael i’r awdurdod lleol. Dan yr amgylchiadau hynny, doedd dim cymaint o angen craffu'n agos ar y gwariant mewn trefi a chymunedau. O ganlyniad i ddwyster yr her ariannol y mae’r Awdurdod bellach yn ei hwynebu, roedd pawb yn ymwybodol bod y sefyllfa hon wedi newid. Ni ellid dibynnu ar setliadau ariannol Llywodraeth Cymru (LlC) i ddarparu digon o gyllid i osgoi straen pellach ar ein cyllidebau, sydd eisoes wedi’u hymestyn. Roedd sefyllfa ariannol Sir y Fflint yn ei gwneud yn anoddach sicrhau unrhyw arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol ac roedd angen craffu’n fwy manwl. Ymhellach, roedd yn amlwg bod yr adnoddau hynny oedd ar gael wedi’u lleihau, felly roedd mwy o angen ystyried a oedd yr egwyddor o arian cyfatebol a gwariant anghyfartal yn Sir y Fflint yn ddull teg a thryloyw. Efallai na fu i’r dull hwn ganiatáu i bob un o'r trigolion ddeall a oedd eu tref hwy’n elwa neu ai i’r etholedig rai roedd yr adnoddau’n mynd. Roedd arian cyfatebol a gwariant anghyfartal mewn un ardal yn disbyddu’r adnoddau oedd yn weddill gymaint fel nad oedd ond ychydig ar ôl, os o gwbl, i’r trefi a’r cymunedau eraill, a chredai bod y sefyllfa’n annheg ac yn anghynaladwy.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Peers.

Siaradodd y Cynghorydd Shotton yn erbyn y Rhybudd o Gynnig, ond diolchodd i’r Cynghorydd Jones am y cyfle i drafod. Er ei fod yn deall y teimlad y tu ôl i’r Rhybudd o Gynnig, gofynnodd i’r Aelodau ddeall y goblygiadau a’r canlyniadau pe byddai’n cael ei basio. Roedd y Cyngor eisoes yn gwneud ei orau dan amgylchiadau anodd mewn trefi a phentrefi ledled y Sir, pob un â’i hunaniaeth ei hun. Cynigiodd rai enghreifftiau o gynlluniau cyfredol: (1) olynydd Cymunedau Llewyrchus Llawn Addewid, sef y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP) a’r cyfle i dref Treffynnon dderbyn y cyllid adfywio hwnnw; a (2)

fel rhan o Gynllun y cyngor, blaenoriaethwyd ehangu darpariaeth gwelyau gofal preswyl trwy'r rhaglen gyfalaf yn Marleyfield House ym Mwcle ar sail yr angen a amlygwyd yn ne'r Sir. Pe cefnogwyd y Rhybudd o Gynnig, byddai'n cyfyngu ar y cyfle i fwrw ymlaen â'r buddsoddiadau hynny, gan y byddai angen yr un faint o gyllid ym mhob tref, a byddai hynny'n arwain at bopeth ym mhob tref neu ddim byd mewn unrhyw dref. Canlyniad cefnogi'r Rhybudd o Gynnig fyddai Cyngor fyddai'n methu gwneud penderfyniadau angenrheidiol ar gyfer y Sir gyfan. Roedd y Cyngor yn gwneud ei orau dros y Sir gyfan yn ystod cyfnod anodd ac roedd y Rhybudd o Gynnig yn afrealistig.

Dywedodd y Cynghorydd Kevin Hughes ei fod yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, ond gyda rhywfaint o amheuon. Teimlai y byddai peidio ei gefnogi'n anfon y neges anghywir i bobl y Sir, ond roedd yn cydnabod nad oedd trefi a phentrefi'r Sir angen cymaint o fuddsoddiad cyfartal â'i gilydd. Fodd bynnag, teimlai nad oedd y Rhybudd o Gynnig yn ymwneud â chyllido cyfartal yn unig, ond â gwleidyddiaeth. Roedd wedi meddwl mai gwaith grwpiau annibynnol fyddai dwyn y grŵp Llafur i gyfrif a'i gefnogi pan oeddent yn cytuno ar faterion. Roedd wedi clywed a bod yn dyst i ymddygiad gwael a bwlio gan Aelodau Llafur ac Annibynnol ill dau tuag at Aelodau eraill. Roedd rhai Aelodau oedd yn cynrychioli'r un wardiau neu rai cyfagos yn amlwg yn casáu ei gilydd. Gofynnodd sut y gellid cynrychioli unrhyw gymuned yn briodol dan yr amgylchiadau hynny. Roedd y Cyngor yn wynebu caledi a thoriadau i wasanaethau, ac os oedd Sir y Fflint am oroesi'r cyfnod anodd hwn, roedd rhaid i Aelodau dynnu ynghyd a gosod materion hanesyddol i un ochr er mwyn gwneud Sir y Fflint yn Sir well a mwy ffyniannus i'r holl drigolion.

Galwodd y Cynghorydd Attridge ar y Cynghorydd Kevin Hughes i dynnu ei sylwadau ynglŷn â'r grŵp Llafur yn ôl. Dywedodd y Cynghorydd Hughes ei fod wedi ei glywed gan bob grŵp.

Dywedodd y Cynghorydd Peers nad oedd, fel Arweinydd y Grŵp Cynghrair Annibynnol, wedi derbyn unrhyw adroddiadau o fwlio gan y Cynghorydd Kevin Hughes nac unrhyw aelod arall. Gan gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, dywedodd ei bod yn amlwg nad am Fwcle yn unig yr oedd y Cynghorydd Richard Jones yn siarad, ond am y Sir gyfan. Roedd angen i Aelodau Etholedig edrych ar eu hardaloedd eu hunain a gofyn a oeddent wedi elwa i'r un graddau a rhai o ardaloedd eraill y Sir a dderbyniodd fuddsoddiad dros gyfnod maith. Gwnaeth sylwadau am y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a Chais Cytundeb Twf Economaidd Gogledd Cymru. Cynhaliwyd gweithdy ar Gais Cytundeb Twf Gogledd Cymru, ond nid oedd llawer o wybodaeth ar gael, er i gwestiynau gael eu gofyn am y Metro a meysydd eraill. Roedd yna lawer o ddarnau ar goll yr oedd angen atebion ar eu cyfer ac roedd yn ymwneud â bod yn deg ac yn gyfartal ar draws y Sir, nid â chyllid yn unig. Dylai pawb gael cyfle i elwa ar fuddsoddiad y gallai'r Awdurdod ei ddenu a dylid sicrhau pob cymuned y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw angen am wasanaeth, gan rannu'r buddsoddiadau'n gyfartal. Roedd buddsoddiadau'n dod i law'r Awdurdod, ond nid oeddent yn cael eu rhannu.

Dywedodd y Cynghorydd Wooley bod gwahanol leoliadau angen gwahanol fuddsoddiadau, ac y byddai'n anodd dweud y dylai popeth fod yn gyfartal trwy'r amser. Roedd yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, ond awgrymodd ychwanegu'r geiriau 'yn ôl yr angen' ar ôl y gair 'cyfartal' ar y llinell gyntaf.

Gofynnodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) a oedd cynigydd ac eilydd y Rhybudd o Gynnig, sef y Cynghorwyr Richard Jones a Peers yn y drefn honno, yn derbyn y diwygiad hwnnw, a dywedasant eu bod.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell bod nifer o'r siaradwyr a oedd wedi siarad o blaid y cynnig mewn gwirionedd wedi cyflwyno rhesymau cadarn dros ei wrthod. Gwnaed y gwelliannau i'r ardaloedd a nodwyd yn y Rhybudd o Gynnig fel rhan o raglen flynyddol wedi'i seilio ar flaenoriaethu angen, gan nad oedd angen buddsoddi ym mhob un o'r pethau hynny ar yr un pryd. Datblygwyd cynlluniau ailddatblygu Canol Trefi ar sail angen, ac roeddent yn cael eu gweithredu pan oedd cyllid LlC yn dod i law. O ran mannau hamdden, cynhaliwyd arolwg nifer o flynyddoedd yn ôl lle edrychwyd ar yr holl fannau chwarae, a chynhyrchwyd rhestr Coch-Oren-Gwyrdd (COG), gan weithio trwyddi, unwaith yn rhagor ar sail angen. O ran cynlluniau tai, roedd cynllun mawr ar y gweill ac roedd tai'n cael eu hadeiladu lle'r oedd safleoedd dan berchnogaeth y Cyngor. Gwnaeth sylwadau hefyd ar leoliadau'r Cartrefi Gofal Ychwanegol, gan ychwanegu bod materion yn cael eu trin yn systematig yn y Sir. Byddai'r Rhybudd o Gynnig yn 'taenu'r menyn yn rhy denau' ac ni fyddai o fudd i unrhyw un.

Siaradodd y Cynghorydd McGuill o blaid y Rhybudd o Gynnig gan fod pob ward yn wahanol, a'i fod wedi'i seilio ar angen. Siaradodd y Cynghorydd Heesom hefyd o blaid y Cynnig, gan nodi'r angen am Sir gyfunol, gydlynol. Nododd bod nifer o bobl yn gweld Sir y Fflint fel bwrdd darts gyda Glannau Dyfrdwy yn y canol, a bod angen ystyried yr holl ardaloedd y tu allan hefyd.

Wrth ymateb i gyhuddiad y Cynghorydd Hughes o fwlio, dywedodd y Cynghorydd Sharps bod y sylw hwnnw'n annerbyniol ac y dylai ymddiheuro. Nid oedd yn ymwybodol o unrhyw fwlio fel Arweinydd y Grŵp Annibynnol. Ar y Rhybudd o Gynnig, dywedodd bod problemau o ran plwyfoldeb; roedd yn byw mewn ardal wledig, meddai, ond roedd cyfran deg o'i waith yn cael ei gyflawni yn ei gymuned.

Croesawodd y Cynghorydd Ellis y gwelyau ychwanegol yn Marleyfield ym Mwcle a'r gwaith arall a wnaed yn y dref, gan gynnwys adfywio'r dref gyda buddsoddiad Aldi, oedd wedi annog datblygiadau eraill yn y dref.

Bu i'r Cynghorwyr Butler, David Healey a Carolyn Thomas oll siarad yn erbyn y Rhybudd o Gynnig, gan nodi mai gwneud y penderfyniadau iawn dros drigolion Sir y Fflint oedd yn bwysig; roedd yn amhosibl gweithredu na monitro'r Rhybudd o Gynnig gan na ellid gwneud popeth ar unwaith a bod pob cynllun yn cael ei gyflawni ar sail angen ac yn cael ei asesu yn y ffordd honno.

Gofynnodd y Cynghorydd Attridge am gyngor, gan ddweud bod ychwanegu'r geiriau 'yn ôl yr angen' yn gwrthddweud y gair blaenorol, 'cyfartal'.

Siaradodd y Cynghorydd Tudor Jones am Rif (2) y Rhybudd o Gynnig, gan ddweud mai atebolrwydd oedd yr agwedd bwysicaf. Dywedodd ei bod yn ymddangos fod yna anghysondeb eang ond bod angen atebolrwydd a thryloywder er mwyn i'r Aelodau gael gwybod i ble'r oedd buddsoddiadau'n mynd. Pe bai pethau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Aelodau, gallent hwythau roi gwybod i drigolion eu wardiau. Awgrymodd y gellid cyflwyno gwybodaeth o'r fath

am ba fuddsoddiadau oedd wedi'u gwneud yn eu cymunedau dros y blynyddoedd diweddar, cyn cynnal etholiad.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod angen gallu dangos i'r trigolion bod pethau'n cael eu gwneud yn yr ardaloedd oedd â'r angen mwyaf. Roedd rhai rhannau o'r Sir yn teimlo nad oeddent yn cael unrhyw fuddsoddiadau. Anogodd yr Aelodau i bleidleisio dros degwch a thryloywder, gan ddweud bod gan bawb hawl i gael eu trin yn gyfartal. Ychwanegodd bod adroddiad o 2010 yn dangos faint a wariwyd ym mhob tref, ond nad oedd gwybodaeth o'r fath ar gael ers y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, o adroddiad ar Lefydd Llewyrchus Llawn Addewid, gallai weld bod dros £20m wedi cael ei wario rhwng Cei Connah a Queensferry rhwng 2010 a 2016; nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer trefi eraill.

Eglurodd y Prif Weithredwr pe byddai'r Cyngor yn gosod polisi, mai cyfrifoldeb y swyddogion fyddai cynghori ar sut i'w ddehongli yn yr un ysbryd ag y'i bwriadwyd. Roedd cynnwys y geiriau a awgrymodd y Cynghorydd Woolley yn gwneud synnwyr i'r lleygwr a chawsant eu derbyn gan y cynigydd a'r eilydd. Fodd bynnag, roedd pwynt y Cynghorydd Attridge ynglŷn â bod yn anghyson yn bwynt dilys - nid yw 'cyfartal' yn cyd-fynd ag 'angen'. Edrychodd ef a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) ar y geiriad diwygiedig ac awgrymu defnyddio'r gair 'teg' yn lle 'cyfartal'. Ychwanegodd bod y Rhybudd o Gynnig yn awgrymu mewn achosion lle'r oedd gan yr Awdurdod reolaeth dros naill ai'r refeniw neu'r cyfalaf, a dywedodd bod angen i'r Aelodau ystyried, pe bai'r cyllid yn allanol ac wedi'i dargedu ar gyfer ardal benodol, tybed a fyddai disgwyl i'r Cyngor ei wrthbwyso â'i adnoddau cyfalaf cyfyngedig ei hun mewn ardal arall? Darparodd enghreifftiau o ble gallai hynny ddigwydd fel canlyniad anfwriadol. Yn dilyn y drafodaeth, a waeth beth fo'r canlyniad, derbyniwyd y gellid darparu gwell proses ar gyfer adrodd sawl gwaith y flwyddyn er mwyn cael tryloywder.

Derbyniodd y Cynghorwyr Richard Jones a Peers, fel cynigydd ac eilydd y Rhybudd o Gynnig, yr awgrym a chytuno y dylid defnyddio'r gair 'teg' yn lle 'cyfartal', gyda'r Rhybudd o Gynnig diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

"(1) Bod y Cyngor hwn yn buddsoddi'n deg, yn ôl yr angen, ym mhob un o drefi Sir y Fflint mewn perthynas â Chefnogi Seilwaith unrhyw fuddsoddiad refeniw neu gyfalaf i:

  (a) Adeiladu neu wella rhwydweithiau priffyrdd a chludiant (ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau beicio neu lwybrau troed), gan gynnwys parcio
  (b) Ailddatblygu neu adfywio trefi, strydluniau neu fannau hamdden, gan gynnwys TCC
  (c) Adeiladu neu ailddatblygu tai, gan gynnwys tai cymunedol megis gofal ychwanegol

(2) Yr adroddir ar y lefelau buddsoddi priodol, gan ddangos cyllid allanol a mewnol, fel rhan o adroddiadau'r Strategaeth Refeniw a Chyfalaf i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol bob chwarter".

Galwodd y Cynghorydd Richard Jones am bleidlais wedi'i chofnodi ac fe'i cefnogwyd gan y nifer ofynnol o Aelodau.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol o blaid y Rhybudd o Gynnig:

Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Dave Mackie, Hilary McGuill, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

Ni phleidleisiodd unrhyw Gynghorydd yn erbyn y Rhybudd o Gynnig nac ymatal.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Richard Jones yn cael ei gefnogi fel a ganlyn:

“(1) Bod y Cyngor hwn yn buddsoddi’n deg, yn ôl yr angen, ym mhob un o drefi Sir y Fflint mewn perthynas â Chefnogi Seilwaith unrhyw fuddsoddiad refeniw neu gyfalaf i:

(a) Adeiladu neu wella rhwydweithiau priffyrdd a chludiant (ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau beicio neu lwybrau troed), gan gynnwys parcio
(b) Ailddatblygu neu adfywio trefi, strydluniau neu fannau hamdden, gan gynnwys TCC
(c) Adeiladu neu ailddatblygu tai, gan gynnwys tai cymunedol megis gofal ychwanegol

(2) Yr adroddir ar y lefelau buddsoddi priodol, gan ddangos cyllid allanol a mewnol, fel rhan o adroddiadau’r Strategaeth Refeniw a Chyfalaf i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol bob chwarter”.

## 76. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM DAU Y GYLLIDEB 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar y Rhagolwg Ariannol a Cham Dau Cyllideb 2018/19 a gyflwynwyd ger bron cyfarfod arbennig o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 6 Rhagfyr a chyfarfod arbennig y Cabinet y bore hwnnw. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cael copi o’r argymhellion drafft o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol arbennig, a ardystiwyd gan y Cabinet y bore hwnnw.

Holodd y Cynghorydd Heesom pam fod gofyn i Aelodau gymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y cyfarfod hwn. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd yn gofyn i Aelodau gymeradwyo cofnodion, ac yn y cyfarfod craffu'r wythnos flaenorol, hysbyswyd yr Aelodau oedd yn bresennol y byddai canlyniad y cyfarfod hwnnw yn cael ei gyfleu i’r Cabinet ac yna i’r Cyngor Sir. Drafft oedd yr argymhellion a chynnwys y

cofnodion. Nododd y Cynghorydd Carver, fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw, eu bod yn wir yn gofnod teg o'r hyn a gytunwyd. Yn dilyn sylw pellach gan y Cynghorydd Heesom, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn adrodd yn gywir yr hyn a benderfynodd y Cabinet y bore hwnnw, gan roi ystyriaeth i benderfyniadau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Bu i'r Cabinet gael a derbyn yn llawn y chwe argymhelliad drafft gan Adnoddau Corfforaethol, sef:

1. Ar ôl ystyried dewisiadau Cam 2 y gyllideb, bod yr adroddiad a'r cynigion yn cael eu nodi;

2. Bod y camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni yn cael eu nodi;

3. Bod y llythyr i'r Ysgrifenyddion Cabinet Cyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Datganiadau Cydnerthedd, yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau;

4. Bod manylion llawn asesiadau o risg, effeithiau a chanlyniadau pob un o gynigion y gyllideb ar gael i'w hadolygu ym mis Ionawr;

5. Bod Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn cael eu hymgynnull ym mis Ionawr er mwyn adolygu'n fanwl y ffioedd parcio a chynigion cyllidebau ysgolion yn y drefn honno, gan gynnwys risgiau a chanlyniadau'r cynigion, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol; a

6. Bod adroddiad yn adolygu'r broses o osod y gyllideb flynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018.

Roedd y Cabinet wedi nodi ac argymell Cam Dau'r gyllideb i'r Cyngor Sir ar yr amod y byddai'r cynigion penodol ar gyllidebau ysgolion a ffioedd parcio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol ym mis Ionawr i'w hadolygu'n llawn, er mwyn iddynt hwy gael adrodd yn ôl cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ar y ddau faes hynny. Nododd y Cabinet hefyd y camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, yn dilyn cymeradwyo Cam Un cynigion y gyllideb, bod y bwlch wedi lleihau i £10.5m, ac eithrio effaith unrhyw risgiau a phwysau yn ystod y flwyddyn allai barhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Cafodd Cam Dau cynigion y gyllideb eu categoreiddio yn ôl lefel uchel neu lefel isel o reolaeth/sicrwydd a chafwyd y manylion llawn yn adroddiad Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a atodwyd i adroddiad y Cyngor, ac roedd yn amrywio o £7.592m i £9.001m. Roedd y gorwariant rhagamcanol yn ystod y flwyddyn o £1.3m yn cael ei archwilio'n llym a byddai dwyn ymlaen unrhyw orwariant cylchol yn y gyllideb sylfaen yn cynyddu'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2018/19.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod tri chais cenedlaethol wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru (LlC) ar y Cap ar y Ffi Gofal Cartref (£0.490m), y Gronfa

Gofal Canolraddol (£0.500m) a'r Ardoll Treth Prentisiaid (£0.350m), gyda'r ddau gyntaf yn costio dim i LlC. Ni chafwyd cais i newid y fformiwla ond gwnaed y ceisiadau penodol hynny i helpu Sir y Fflint gyda'r bwlch yn y gyllideb. Eglurodd na fyddai'r ceisiadau hynny yn costio dim i awdurdodau lleol eraill chwaith. Trefnwyd cyfarfod gyda'r Arweinydd, dau Weinidog y Cabinet ac ef ei hun cyn y Nadolig.

Bu i'r Cynghorydd Shotton gadarnhau unwaith eto'r argymhellion gan y Cabinet y bore hwnnw, oedd fel yr eglurwyd gan y Prif Weithredwr. Eglurodd y cynhaliwyd y broses newydd ar gyfer gosod y gyllideb mewn tri cham bellach, gan bwysleisio pwysigrwydd cynllunio. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd y trafodaethau sydd ar ddod gyda LlC i helpu cyrraedd cyllideb fantoledig, yn enwedig ar y tri chais. Nid oedd y Cabinet yn fodlon "awdurdodi" unrhyw doriadau pellach gan Llywodraeth y DU ar wasanaethau'r Cyngor, ac roedd yn ceisio cefnogaeth LlC i ymladd yn ôl yn erbyn caledi. Ceisiodd gefnogaeth yr Aelodau, yn enwedig ar gyfer y trafodaethau fyddai'n cael eu cynnal gyda LlC.

Gofynnod y Cynghorydd Peers am wybodaeth am y gwariant yn ystod y flwyddyn oedd yn cael ei archwilio'n llym a'r newidiadau negyddol pellach i grantiau penodol, a chytunwyd i'w hanfon ato. Ar y bwlch o £13.6m yn y gyllideb, dywedodd y byddai bwlch negyddol yn digwydd pan fo'r gwariant yn fwy na'r incwm. O ran cynigion Cam Dau, yn enwedig ar lefel o ddim rheolaeth na sicrwydd, roedd hyn yn cynnig rhywfaint o risg ac roedd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Gofynnodd a oedd yna gynlluniau at raid ar gyfer diwedd Camau Dau a Thri, gan nodi ansicrwydd yng Ngham Un allai newid o hyd. Ychwanegodd ei fod wedi gofyn nifer o gwestiynau ar Gam Un ond nad oedd wedi cael atebion hyd yma. Holodd a fyddai'r holl Aelodau'n cael eu gwahodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu pan fydd cyllidebau ysgolion a ffioedd parcio'n cael eu trafod, er mwyn i unrhyw gwestiynau fyddai'n cael eu holi yng nghyfarfod hwn y Cyngor gael eu holi yn y Pwyllgorau hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod gwaith yn mynd rhagddo ar gwestiynau'r Cynghorydd Peers ar Gam Un y gyllideb ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Ar yr archwiliadau llym o'r pwysau yn ystod y flwyddyn, y cwestiwn oedd pa mor ragweladwy oedd yr hyn fyddai'n digwydd y flwyddyn nesaf, gydag un maes yn ymwneud â'r cynnydd mewn gwariant ar Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Bydd posib manylu ar effaith debygol pwysau o'r fath ym mis Ionawr. O ran grantiau penodol, roedd y Grant Gwella Addysg a Grant Sengl yr Amgylchedd yn sylweddol a bob amser yn hwyr. Roedd cyfuniad o dair ffordd yn unig y gellid mantoli'r gyllideb: (1) cefnogaeth atodol gan LlC; (2) defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel mesur dros dro; ac/neu (3) toriadau i wasanaethau a chyllidebau fyddai'n arwain at effaith ar wasanaethau megis Gofal Cymdeithasol, Strydwedd ac Addysg, a thrafodwyd y rhain i gyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod Cadeiryddion cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu bob amser yn croesawu Aelodau eraill i'w cyfarfodydd.

Cwestiynodd y Cynghorydd Heesom yr argymhellion gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a roddwyd i'r Aelodau. Gwnaeth sylwadau ar faint y bwlch yn y gyllideb y mae'r Cyngor yn ei wynebu a theimlai bod ymdeimlad o anobaith o amgylch y sefyllfa roeddent yn ei hwynebu. Oni fyddai LlC yn fodlon eu cynorthwyo, roedd y sefyllfa'n enbyd. Dywedodd mai'r

Weinyddiaeth oedd wedi creu'r sefyllfa ac mai eu cyfrifoldeb hwy oedd tynnu'r Cyngor o'r sefyllfa hon. Gwnaed sylwadau yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos cynt ar Gam Un a hysbyswyd yr Aelodau gan Arweinydd y Cyngor bod y gyllideb wedi cael ei harchwilio fesul llinell, ond dywedodd nad oedd Aelodau eraill mewn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill wedi cael y cyfle hwnnw. Hyd yn oed pe sefydlwyd dewisiadau Cam Dau, dim ond £9m fyddai hynny'n ei godi, gan adael bwlch o hyd. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr, o ran y tri dewis y cyfeiriodd atynt, pa ddewisiadau eraill oedd ar ôl, oherwydd os oedd yna ordal yn ychwanegol at godiad posibl o 5% yn Nhreth y Cyngor, roedd angen i'r Aelodau roi gwybod i'w trigolion cyn gynted ag y bo modd.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y sefyllfa ariannol yn dra difrifol. Yr Aelodau oedd yn gyfrifol am osod y gyllideb, ar sail cyngor proffesiynol a ddarperir gan Swyddogion y gellid craffu arno wedyn. Hysbysodd nad oedd yn briodol cyfeirio sylwadau'n bersonol ato ef ar ddewisiadau megis lefelau Treth y Cyngor. Dywedodd efallai na fyddai angen codi Treth y Cyngor 5% ac ychwanegodd na chrybwyllwyd codiad yn Nhreth y Cyngor gan unrhyw Aelod yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr wythnos cynt fel maes pryder mawr. Roedd y Cynghorwyr Richard Jones a David Healey ill dau wedi nodi bod yr argymhellion yn gywir ac fe ddywedodd unwaith eto eu bod wedi'u derbyn gan y Cabinet y bore hwnnw. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) hefyd bod yr argymhellion yn adlewyrchu'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw ac y byddent yn llunio rhan o'r cofnodion drafft i'r Pwyllgor hwnnw eu trafod. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, dywedodd y Cynghorydd Carver hefyd eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a gytunwyd. Dywedodd hefyd ei fod yn croesawu Aelodau eraill i'w gyfarfodydd. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y dyddiadau fel a ganlyn: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd, 16 Ionawr am 10.00am a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid, 18 Ionawr am 2.00pm.

Diolchodd y Cynghorydd Richard Jones i'r Prif Weithredwr am gyfleu prif bwyntiau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Cododd bryder am y posibilrwydd y gellid teimlo nad yw rhai o'r dewisiadau'n dderbyniol, gan ddyfynnu ffioedd parcio, allai arwain at wneud tref yn anhygyrch, ond nid oedd yn deall y canlyniadau yn ddigon da i allu gwneud penderfyniadau o'r fath. Teimlai bod Glannau Dyfrdwy yn cael ei ddiogelu oherwydd Cynllun Glannau Dyfrdwy. Credai y dylid cynnwys y £500k am y Gronfa Gofal Canolraddol yn y ffigurau.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r tri chynnig fyddai á goblygiadau i'r cyhoedd oedd Treth y Cyngor, ysgolion a pharcio, ac roedd dau o'r rheiny wedi cael eu tynnu allan o'r prif adroddiad i'w trafod ar wahân yn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y trafodwyd yn flaenorol. Risg corfforaethol oedd yr holl ddewisiadau eraill ac nid oeddent yn effeithio'r bobl yn uniongyrchol; roedd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn edrych ar y risgiau i bobl a chymunedau. Byddai manylion yr asesiadau, yr effeithiau a'r canlyniadau ar gael ym mis Ionawr. Mewn ymateb i'r pwynt am y Gronfa Gofal Canolraddol, eglurodd nad oedd hwn wedi'i warantu ar y cam cynnar hwn.

Dywedodd y Cynghorydd David Healey hefyd bod yr argymhellion drafft yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a ddywedwyd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ac roedd yntau hefyd yn croesawu'r holl Aelodau i

gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid ym mis Ionawr. Mynegodd bryder am gyllidebau ysgolion, gan ddweud bod rhai ysgolion yn Lloegr wedi gostwng i bedwar diwrnod yr wythnos er mwyn diwallu pwysau cyllidebol. Mynegodd ei werthfawrogiad nad oedd sefyllfa o'r fath wedi digwydd yn Sir y Fflint.

Eglurodd y Prif Weithredwr pa mor bwysig oedd hi i ysgolion gael gwybod am y sefyllfa cyn gynted ag y bo modd, er mwyn eu galluogi i gynllunio ar ei chyfer. Fel Aelod Cabinet Addysg, dywedodd y Cynghorydd Roberts ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ymgynghori, ac mai'r adborth cyffredinol o ysgolion oedd eu bod yn ddiolchgar am yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i wneud hyd yma, a'u bod yn disgwyl y sefyllfa fel y'i nodwyd. Fodd bynnag, cytunodd â'r Prif Weithredwr ar bwysigrwydd rhoi'r wybodaeth iddynt cyn gynted ag y bo modd.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn dewisiadau cyllideb Cam Dau o fewn yr adroddiad Craffu ac argymhellion y Cabinet y manylir arnynt isod;

*(i)* *Derbyn adborth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol gydag argymhelliad i'r Cyngor ar Gam 2 strategaeth y gyllideb;*

*(ii)* *Nodi'r camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni; a*

*(iii)* *Bod y Cabinet yn cael ac yn derbyn yn llawn y 6 argymhelliad drafft gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol (rhestrir isod). Roedd y Cabinet wedi nodi ac argymell Cam 2 y gyllideb i'r Cyngor Sir ar yr amod y byddai'r cynigion penodol ar gyllidebau ysgolion a ffioedd parcio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol ym mis Ionawr i'w hadolygu'n llawn, er mwyn iddynt hwy gael adrodd yn ôl cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ar y ddau faes hynny.*

*Argymhellion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:*

1. *Ar ôl ystyried dewisiadau Cam 2 y gyllideb, bod yr adroddiad a'r cynigion yn cael eu nodi;*
2. *Nodi'r camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni;*
3. *Bod y llythyr i'r Ysgrifenyddion Cabinet Cyllid a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Datganiadau Cydnerthedd, yn cael eu dosbarthu i'r holl Aelodau;*
4. *Bod manylion llawn asesiadau risg, effeithiau a chanlyniadau pob un o gynigion y gyllideb ar gael i'w hadolygu ym mis Ionawr;*
5. *Bod Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn cael eu hymgynnull ym mis Ionawr er mwyn adolygu'n fanwl y ffioedd parcio a chynigion cyllidebau ysgolion yn y drefn honno, gan gynnwys risgiau a*

*chanlyniadau'r cynigion, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol; a*

6. *Bod adroddiad yn adolygu'r broses o osod y gyllideb flynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018.*

(2) Nodi'r camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni; a

(b) Nodi'r camau sy'n weddill ym mhroses y gyllideb a'r amserlenni.

**77. <u>PENODIAD AELOD ANNIBYNNOL</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar Benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau. Roedd un swydd wag ar y Pwyllgor ar gyfer aelod annibynnol (cyfetholedig) a dwy swydd wag o'r fath gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC).

Roedd y Cyngor wedi cynnal ymarfer recriwtio ar y cyd ag ATAGC, gan rannu'r costau hysbysebu. Hysbysebwyd y swyddi gwag yn y wasg leol, ar y wefan ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd 8 ymgeisydd a lluniwyd rhestr fer yn erbyn meini prawf a oedd wedi'u cytuno'n flaenorol gan y Cyngor Sir. Roedd mewn cysylltiad ag un o'r ymgeiswyr oedd heb ei gynnwys ar y rhestr fer, oedd yn teimlo bod y broses yn ddiffygiol.

Gwahoddwyd pum ymgeisydd i gael cyfweliad gan banel a gytunodd i argymell Julia Hughes i Gyngor Sir y Fflint ac ATAGC, gyda Sally Ellis yn cael ei hargymell ar gyfer yr ail swydd wag yn yr ATAGC. O ystyried bod Julia Hughes yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor Safonau ac i ATAGC, byddai hyn yn galluogi'r ddau awdurdod i rannu'r buddsoddiad mewn hyfforddi, yn rhoi profiad ehangach iddi a hefyd yn rhannu syniadau rhwng y ddau sefydliad.

Dywedodd y Cynghorydd Carver y cysylltwyd ag ef gan un o'r ymgeiswyr na chafodd ei roi ar y rhestr fer, oedd yn mynegi ei bryderon am y broses recriwtio a'r nifer isel o ymgeiswyr. Holodd pam y nodwyd yn yr hysbyseb y gellid hawlio am deithio a chynhaliaeth, ond nad oedd yn nodi'r tâl o £99 am hanner diwrnod neu £198 am ddiwrnod llawn, y teimlai allai fod wedi peri i bobl beidio ag ymgeisio. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi gwasanaethu fel aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ers 2015 a holodd a fyddai'r tymor o ddwy flynedd hwnnw yn cael ei dynnu oddi ar dymor y swydd yn Sir y Fflint a p'un ai fyddai gwasanaethu ar ddau wahanol Bwyllgor Safonau'n anfantais ai peidio. Gohiriodd yr eitem er mwyn i Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Gwasanaethau Democrataidd gael ei ystyried. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Hardcastle.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y cafwyd ymateb da y tro hwn o'i gymharu ag achlysuron lle bu'n rhaid ceisio ymgeiswyr. Ochr yn ochr â'r hysbyseb roedd pecyn cais llawn oedd yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl, gan gynnwys y cyfraddau tâl a nodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cadarnhaodd nad oedd y ffaith fod aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Safonau Cyngor arall yn eu diarddel rhag bod yn aelod

nac yn effeithio eu tymor yn y swydd. Byddai'n dod â haen ychwanegol o brofiad yn ei sgil. Ychwanegodd y dilynwyd y broses recriwtio'n gywir fel y'i nodir mewn deddfwriaeth ac achubodd ar y cyfle i ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Arnold Woolley a'r lleygwr, Noella Jones, am fod yn rhan o'r Panel.

O'i roi i'r bleidlais, collwyd y diwygiad i ohirio.

O'i roi i'r bleidlais, cymeradwywyd y cynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y byddai'r Cyngor yn penodi Julia Hughes ar y Pwyllgor Safonau tan 2022; ac

(b) Y dylid diolch i Noella Jones am gymryd rhan.

## 78. ARGYMHELLIAD GAN BWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD

*Ar ôl datgan cysylltiad, gadawodd y Cynghorydd David Hughes y siambr ar gyfer yr eitem hon.*

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad oedd yn argymell cymeradwyo lwfans o £8,700 i Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, fyddai'n cael ei ôl-ddyddio i ddechrau blwyddyn y cyngor. Cronfa Bensiynau Clwyd fyddai'n talu'r gost.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge y dylid cymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dunbobbin.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo lwfans o £8,700 i Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, fyddai'n cael ei ôl-ddyddio i ddechrau blwyddyn y cyngor, sef 18 Mai 2017; a

(b) Cynnwys manylion y taliad o fewn Atodlen y Cyngor o Daliadau Aelodau, fel bod yn ychwanegol i'r 18 uwch gyflog a reoleiddir.

## 79. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

(Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.48pm)

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.48 pm)

…………………………………………

**Cadeirydd**